

**COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL CYNGOR CYMUNED MAWDDWY Nos**  
**Fercher yr 22ain o Fai 2019 am 7.30pm yn y Neuadd, Dinas Mawddwy.**

**PRESENNOL:**

Elwyn Jones - Cadeirydd	Iwan Foulkes - Is gadeirydd	Hedd Pugh
Catrin Jones	Idris Jones	Tegwyn Jones
Berwyn Harding	Arfon Hughes – Cofnodwr yn absenoldeb Huw	John P Jones (7:55)
Berwyn Hughes (8:00)	Cynghorydd Sir – John Pughe Roberts	

	<b>Rhaglen y cyfarfod</b>	<b>Cyfrifoldeb ac Amserlen</b>
1.	<b>CROESO a Derbyn Ymddiheuriadau</b> Huw Jones (Clerc) a Geraint Morgans	
2.	<p><b>Croesawu Parch Miriam Beecroft Rheithor Mallwyd a Mr Sion Rhys Evans Ysgrifennydd Deoniaeth Bangor yr eglwys yng Nghymru (EyNGH) i ymdrin â materion yn ymwneud ag Eglwys Mallwyd.</b></p> <p>a. Croesawyd yr uchod gan yr Is gadeirydd.</p> <p>b. Rheithordy mallwyd - dim posib cael rheithor i fyw yn y rheithordy ac mae'r ddeoniaeth yn ystyried gwneud y Rheithordy a'r gerddi a'r eglwys a Llanymawddwy yn gyrchfan ar gyfer pererindod twristiaeth Gristnogol gan gofio bod yr Eglwys yng Nghymru yn 100 mlynedd yn 2020 a chysylltiad â Dr. John Dafis fel dau bwynt ystyriol.</p> <p>c. Derbyn syniadau - hoffai'r EyNgh dderbyn sylwadau gan drigolion a chymuned cyngor Mawddwy ar y ffordd ymlaen i hyn ddigwydd. Cynigwyd gan Arfon y dylai'r EyNgh gydweithio i ymgynghori ar ganfod hyn yn ogystal â hygyrchedd i'r manau hyn. Derbyniwyd y cynnig gan y gynrychiolaeth.</p> <p>d. Tynnwyd sylw at yr angen i gael mynediad drwyddi draw i'r holl safle ym Mallwyd gan fod ganddynt fel Eglwys ddyletswydd elusennol i hyn, mynegwyd pryder am barcio i'r fynwent a holwyd am botensial llwybr trwy erddi'r Rheithordy. Nodwyd bod y rheithordy a rhannau o'r gerddi wedi eu cofrestru.</p> <p>e. Tynnwyd sylw at y coed oedd ym mherchnogaeth yr EyNgh ger y briffordd. Cytunwyd y dylai Huw yrru rhestr o dorwyr coed i'r Parch. Miriam</p> <p>f. Elusen Dol y Plwyf - Cadarnhawyd bod yr elusennau canlynol lleol yn dilyn sgysiau gyda John P Roberts i dderbyn arian o'r gronfa a bod elusennau lleol yn cael blaenoriaeth. £200 i'r Ysgol feithrin, £200 i gyfeillion yr Ysgol, £100 i neuadd Dinas Mawddwy a £100 i neuadd Aberangell. Bydd y parch Miriam yn cysylltu â'r uchod i gadarnhau'r symiau hyn ac i bawb yn y pwyllgor gadw hwn yn gyfrinach tan y bydd hwy wedi gwneud. Diolchwyd i'r ddau gan Iwan.</p>	<p>8:10yh</p> <p>Huw i gydlynu ymgynghoriad ar hyn gyda'r gynrychiolaeth – Miriam a Sion.</p> <p>Huw i yrru rhestr o gontractwyr coed lleol i'r Parch. Miriam.</p> <p>Cynghorwyr Mawddwy i gadw'r newydd hyn yn gyfrinachol am y tro tan y caiff llythyr gan y parch. Miriam gyrraedd yr elusennau sy'n cael eu heffeithio Huw i yrru neges o ddiolch i'r ddau gynrychiolydd.</p>
3.	<p><b>COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF</b></p> <p>Cadarnhau cofnodion cyfarfod 13eg o Fawrth 2019, a chyfarfod arbennig 22ain o Fawrth 2019 (sydd eisoes wedi eu dosbarthu mewn draft yn union wedi'r cyfarfod)</p> <p><b>Cadarnhawyd fod cofnodion y cyfarfod diwethaf ar y 13eg o Fawrth yn gywir. Cynigwyd Berwyn Harding, Eilwyd Idris.</b></p>	7:30yh

3b

**COFNODION Y CYFARFOD ARBENNIG**

Cadarnhau cofnodion Cyfarfod arbennig 22ain o Fawrth 2019 (sydd eisoes wedi eu dosbarthu mewn draft yn union wedi'r cyfarfod)

Yn absenoldeb Huw ac yn ol cenadwri ganddo tynnwyd sylw gan Iwan nad oedd modd cael trafodaeth ar y cofnodion hyn.

- a. Tynnwyd sylw gan Tegwyn bod llythyr gan Catrin yn cwyno am ymddygiad cynghorwyr oedd yn aelodau o Gwmni Nod Glas (CNG) wedi creu lot o helynt a bod yr honiadau yn rhai maleisus sy'n dangos diffygion yn yr archwiliad, a diffyg parch i'r cod ymddygiad, a rheolau sefydlog wedi eu torri. Mynegodd ei fod yn anhapus iawn gyda'r sefyllfa ac nad oedd yna sail na thystiolaeth wedi eu cynnig i neb fedru ymateb iddynt nac i glirio enw da, gan olygu bod hyn wedi effeithio ar iechyd a pherthynas ag eraill.
- b. Mynegodd ei siom bod 'na ddim cefnogaeth ac arweiniad i waith adnewyddu llwybrau CNG gan y Cyngor a fyddai'n gallu dod a gwaith i drigolion lleol a chynnal y gymuned ond ar y llaw arall y Cyngor yn cefnogi person estron i adnewyddu tŷ yn Penthryn, Cywarch.
- c. Gyda hynny o eiriau gan nad oedd modd trafod y pwnc fe ddatganodd ei ymddiswyddiad fel cynghorydd gan godi a cherdded allan.
- d. Gwnaeth Elwyn fel cadeirydd ddiolch i Tegwyn am ei waith fel cynghorydd a gwnaeth John P Roberts ategu ei sylw.
- e. Yn yr un modd gwnaeth y cadeirydd Elwyn ymateb i'r cofnodion gan dynnu sylw at nifer o bwyntiau mewn llythyr wnaeth ei ddarparu i'r cynghorwyr yn nodi ei siomedigaeth yntau sef
  - a. Unigolyn o'r ardal wedi tanseilio cais grant ar gyfer adnewyddu llwybrau i'r Parc Cenedlaethol
  - b. Llythyr gan Catrin wedi creu diflastod heb unrhyw oleuni nac esboniad o'r cyhuddiadau
  - c. Diffyg ymateb prydlon o gyfarfod caeedig o sefyllfa ddiflas o gyhuddiad cyhoeddus yn erbyn aelodau'r cyngor hwn mewn da bryd.
- f. Gyda hynny o eiriau gan nad oedd modd trafod y pwnc fe ddatganodd ei ymddiswyddiad fel cynghorydd gan godi a cherdded allan am 8:10
- g. Yn dilyn y ddau ymddiswyddiad gwnaeth Iwan fel Is Gadeirydd gamu i'r gadair i arwain gweddill y cyfarfod heb lawer o drafodaeth i'r hyn a glywyd, gan i gynrychiolwyr o'r Eglwys yng Nghymru (EyNgh) gyrraedd y cyfarfod a rhoddwyd blaenoriaeth i'r materion hynny wedyn.
- h. Yn dilyn ymadawiad cynrychiolwyr yr Eglwys parhawyd gyda'r sylw a wnaed gan Elwyn a Tegwyn, ac at lythyr Elwyn yn benodol.
- i. Gwrthododd Catrin yr honiad nad oedd ganddi sail a thystiolaeth i gefnogi'r llythyr a ysgrifennodd hi.
- j. Cynigiodd Hedd y dylid gadael llythyr Elwyn heb ei drafod ymhellach ac eiliodd Berwyn Harding hynny. Cytunwyd i'r uchod a bod copi o'r llythyr yn cael ei anfon i Huw hefyd.
- k. Cynigwyd gan Hedd y dylid hysbysebu Cyngor Gwynedd bod dwy sedd wag i'w llenwi. Cytunwyd i hyn.
- l. Cynigiodd Hedd y dylid cadw llythyr gan Elwyn yn gyfrinachol gan fod cyfeiriad at Huw fel clerc a chynghorwyr ynddo
- m. Ar ddiwedd y cyfarfod diolchodd Iwan o flaen y pwyllgor i'r ddau gynghorydd a ymddiswyddodd, am eu gwaith dros y gymuned dros y blynnyddoedd.

Cadarnhawyd fod cofnodion y cyfarfod arbennig yn gywir gan y rhai oedd yn bresennol. Arwyddwyd copïau o'r ddau set o gofnodion gan

8:00

8:40

**Huw i gysylltu gyda Chyngor Gwynedd i'w hysbysebu o ddwy swydd wag**

	Iwan gan fod Elwyn wedi gadael cyn arwyddo'r cofnodion cyfarfod 13eg o Fawrth.	
4.	<p><b>UNRHYW FATERION YN CODI</b></p> <p><b>1. Cofnodion y cyfarfod diwethaf – dim trafodaeth.</b></p> <p><b>2. Materion yn Codi</b></p> <p>a) <b>Eglwys yng Nghymru (EyNgh) – Coed ger mynwent Eglwys Mallwyd</b></p> <p>a. Roedd Iwan Foulkes wedi edrych i mewn i berchnogaeth y sribyn hir o dir rhwng y fynwent a'r A470 lle'r oedd coed mawr (bellach ) yn tyfu a chanfuwyd bod yr EyNgh wedi cofrestru'r tir eu hunain ac felly cyfrifoldeb yr Eglwys oedd y gwaith ar y coed a'r tir ac nid y Cyngor Cymuned.</p> <p><b>b) Praesept - Dim trafodaeth</b></p> <p><b>c) Sgwrs Cyngh. Dyfrig Siencyn a choed Dolybont.</b></p> <p>a. Yn dilyn gohebiaeth gan y Cyngor bod monitro coed yn mynd i gael ei wneud dros y gaeaf 2019-2020, a bod tymor nythu angen bod yn ystyriaeth a'r ffaith nad oedd cwynion wedi eu gwneud nad oedd yn fater brys. Yr ymateb gan y cynghorwyr oedd bod yna ganghennau yn disgyn, a bod pobl leol yn eu symud o'r ffordd. Cytunwyd i barhau i ohebu er mwyn cael ymadael a'r coed ac i'r gwaith gael ei wneud cyn gynted â phosibl gyda chopi i'r Cyngh. Dyfrig Siencyn</p> <p><b>d) Mynwent Dinas Mawddwy – dim trafodaeth</b></p> <p><b>e) Tir CCG yn Lawnt y Plas lle mae cerbydau yn troi sydd wedi mynd yn dyllog.</b></p> <p>a. Cafwyd llythyr yn dweud bod y tir yn destun trosglwyddiad ond cadarnhawyd nad oedd hyn yn wir ac mae CCG yn parhau yn berchen arno. Cytunwyd i yrru nôl gan barhau i roi pwysau ar CCG</p> <p><b>f) Coed ac eiddew yn tyfu ym mynwent Mallwyd</b></p> <p>a. Cytunwyd i Huw gysylltu â Tegid y contractwr yn dilyn ymweliad a'r safle ac i drafod cael yswiriant atebolwydd cyhoeddus hefo fo. Nodwyd bod Hefin Davies wedi cael yswiriant ar gyfer torri glaswellt.</p> <p><b>g) Ffens derfyn mynwent Llanymawddwy a thir ochr uchaf.</b></p> <p>a. Mae'r sgwrs yn parhau.</p> <p><b>h) Dwr ar ffordd ger Godre'r Coed</b></p> <p>a. Dim gohebiaeth hyd yn hyn.</p> <p><b>i) Materion Asiantaeth Cefnffyrdd</b></p> <p>a. Problem dwr ger Dugoed Mawr - cafwyd cadarnhad bod dyluniad wedi ei wneud a bod y gwaith i ddigwydd i ddatrys y broblem yn y flwyddyn ariannol yma.</p> <p>b. Twll ger y Buckley Arms – cafwyd ymateb nad oedd yr Asiantaeth yn pryderu am yr achos yma ar hyn o bryd a chytunodd y cynghorwyr bod angen tynnu sylw eto ato.</p> <p><b>j) Meddygfa Glantwymyn a'r penderfyniad i'w gau.</b></p> <p>a. Mynegodd y cynghorwyr eu hanfodlonrwydd gyda'r sefyllfa a'i fod yn rhwystredig i fedru newid pethau</p>	<p><b>7:30</b></p> <p><b>Huw i gysylltu â'r EyNgh i adael iddynt wybod.</b></p> <p><b>Huw i barhau i gysylltu ag Adrian yn y Cyngor a chopio cyngh. D Siencyn iddo.</b></p> <p><b>Huw i yrru eto at CCG yn cadarnhau nad yw'r tir yma yn cael ei drosglwyddo ac mai tir yn eiddo CCG ydyw ag yn parhau felly.</b></p> <p><b>Huw i gysylltu â Tegid i gadarnhau'r sefyllfa yswiriant ac i'w annog i ddilyn esiampl Hefin Davies</b></p> <p><b>Huw i gadarnhau lle mae'r sgwrs erbyn hyn.</b></p> <p><b>Huw i holi beth yw'r diweddaraf gyda CNC.</b></p> <p><b>Huw i gysylltu gydag Asiantaeth cefnffyrdd i fynegi pryder am y twll ger y Buckley.</b></p>

	<p>k) <b>Cyngh. J P Roberts</b> – dim trafodaeth</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>3. Materion cynllunio – dim i'w drafod</li> <li>4. Materion cyllid - ni chafwyd trafodaeth Costau a chydabyddiaeth y Huw – ni chafwyd trafodaeth</li> <li>5. Gohebiaeth. – Dim trafodaeth</li> <li>6. Unrhyw fater arall       <ol style="list-style-type: none"> <li>a. gôr dyfiant ar y palmant ar yr A470 - dim trafodaeth</li> <li>b. Casglu sbwriel – gyrrwyd copi o bolisi yswiriant y cyngor ar e-bost yn flaenorol i'r cynghorwyr am gasglu sbwriel gan unigolion a grwpiau.</li> <li>c. Canclwm siapan Cafwyd trafodaeth ar y Canclwm yn yr ardal ac er mwyn peidio targedu un ardal yn benodol bod gwaith gan Huw i adnabod ardaloedd sydd yn cael ei effeithio ac i wneud hyn trwy ymgynghori a'r gymuned gan fapio'r ardaloedd sydd a'r canclwm. Hysbysebu hyn drwy roi ar FB, Hysbysfyrdau a gwefan ac ati er mwyn cael gwell darlun o'r sefyllfa ac i wneud hyn cyn gynted â phosib er mwyn mynd i'r afael cyn diwedd yr haf a'r tymor tyfu.</li> <li>d. Arwyddion ffyrdd budr a blêr - dim trafodaeth</li> <li>e. Comin Dolybont – dim trafodaeth           <ol style="list-style-type: none"> <li>a. Ceir</li> <li>b. Rheoli tyfiant</li> <li>c. Biniau baw cwn</li> </ol> </li> <li>f. Tŷ'r Hers - cafwyd trafodaeth am hyn ond ni chafwyd ateb i'r broblem. Cytunodd Catrin a Berwyn i barhau i drafod ffordd posib</li> <li>g. Gwefan – dim trafodaeth</li> <li>h. Hen system deledu Dinas – heb dderbyn ymateb ac angen holi ymhellach.</li> <li>i. Ffordd Deunant – angen parhau i dynnu sylw at y ffordd dyllog hon.</li> <li>j. Meinciau - sylweddolwyd bod angen edrych ar feinciau'r ardal gan fod yr un wrth aber Cerist a Dyfi wedi dechrau pydru. Y Huw i yrru rhestr o asedau'r cyngor i bawb a chyfrifoldeb pwy i'w harchwilio gan gynnwys arhosfannau bws ac ati.</li> <li>k) Plac ar bont Dolybont Cafwyd llythyr gan Liz haynes yn egluro'r sefyllfa o ran plac ar giât ac ymarferoldeb giât a mynediad i'r anabl ar rampiau at y bont. Cytunodd y cynghorwyr bod angen giât ar gyfer cadw stoc ac mae modd cael un fyddai'n addas ar gyfer yr anabl yn ôl cynghorydd.. Cytunwyd i gysylltu'n ôl a Liz Haynes i ddweud hyn gan ofyn am ddyluniad fyddai'n bosib defnyddio giât ar y bont. Doedd gan y cynghorwyr ddim gwrthwynebiad i blac ar ochr y bont. <b>Hedd yn datgan diddordeb fel Porwr</b></li> <li>l) Redbull – dim trafodaeth</li> </ol> </li> </ol>	<p>Huw i ymgynghori a thirfeddianwyr a thrigolion ardal cyngor Mawddwy er mwyn mapio'r Canclwm fel bod modd dechrau ei waredu cyn diwedd y tymor tyfu. Hefyd i gysylltu gyda Dafydd Roberts o APCE a Kirsty Lees o Gyfoeth Naturiol Cymru cyn gynted â phosibl i drafod posibiliadau chwistrellu ac ariannu'r gwaith.</p> <p>Huw i holi am ymateb gan fod y ceblau a risg uchel diogelwch i ddefnyddwyr ffordd Huw i gysylltu ag adran priffyrdd eto ynghylch ffordd Deunant. Huw i yrru copi o asedau'r cyngor i'r cynghorwyr i dynnu sylw at gyfrifoldeb pwy o'r cynghorwyr oedd archwilio'r asedau. Ac iddynt adrodd yn ôl ar eu cyflwr erbyn y cyfarfod nesaf.</p> <p>Huw i gysylltu â Liz Haynes i ofyn am ddyluniad rampiau fyddai'n caniatáu giat a gosod plac ar y bont</p>
5.	<p>Ethol Swyddogion</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>a) Cadeirydd - Iwan Foulkes - CYNNIG – Hedd, EILIWYD - John P Jones</li> <li>b) Is- Gadeirydd – Berwyn Hughes CYNNIG – Arfon, EILIWYD - Idris</li> <li>c) Huw – Huw Jones CYNNIG – Hedd, EILIWYD - Catrin</li> </ol> <p>Etholwyd yr uchod ar gyfer 2019-2020</p>	

6.	<p>Cadarnhau dyddiadau cyfarfodydd 2019-2020, sef 26/06/19, 4/09/19, 16/10/19, 4/12/19, 22/01/20, a 11/03/20. <i>Cytunwyd ar y dyddiadau</i></p>	
7.	<p><b>Materion Cynllunio</b></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Tynnwyd sylw at y ceisiadau cynllunio a yrrwyd i'r cynghorwyr ac nad oedd pawb wedi cael cyfle i roi sylw ac roedd amheuan os oedd y sylwadau wedi eu derbyn mewn pryd.</li> <li>2. Tynnwyd sylw at y ffaith (unwaith eto) gan y Cyngh. JP Roberts nad oedd 'cefnogi' neu 'gwrthod' yn sylwadau digonol a bod angen sail resymol cynllunio wrth roi barn. Bydd modd gwneud ymatebion yn gynt o hyn ymlaen gan y bydd y ceisiadau yn cael eu gyrru i'r aelodau yn electronig.</li> <li>3. Cadarnhawyd bod tri cais- mast Coedcae yn Llanymawddwy wedi eu cymeradwyo, Canolfan Camlan yn Dinas a Chefn Gwyn Aberangell hefyd.</li> <li>4. Doedd dim ceisiadau newydd.</li> </ol>	
8.	<p><b>Materion Cyllid - gan gynnwys cadarnhau Cyfrifon 2018-19.</b> Hefyd cadarnhau manylion y gorchydd yswiriant ar gyfer 2019-20 (wedi ei ddanfôn allan ymlaen llaw ar e-bost). Cytunwyd</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>a. Cylch Meithrin Dolybont – Derbyniwyd cerdyn o ddiolch gan y Cylch am yr arian</li> <li>b. EW Owen cyfrifydd – Cyflogres – cytunwyd i dalu'r anfoneb o £170+taw = £204.</li> <li>c. Cais am gyfraniad ariannol i Bobath / Canolfan therapi plant Cymru - cytunwyd i aros tan y cyfarfod nesaf i weld beth a dalwyd yn y gorffennol os na wnaed llynedd.</li> <li>d. Yswiriant - £278.40 – cytunwyd i'w dalu</li> </ol>	
9.	<p><b>Gohebiaeth</b></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>a. Casglu ysbwriel - cafwyd llythyr gan adran 'fwrdeistrefol' yn datgan bwriad i gasglu sbwriel domestig ac annomestig newydd o hyn ymlaen.</li> <li>b. Cadarnhawyd bod cais am finiau baw cwn ym Mallwyd ac ym Minllyn</li> <li>c. Cadarnhawyd bod sylw'r Cyngor i wrthwynebu gwastraff niwcliar yn ardal Mawddwy wedi ei dderbyn</li> <li>d. Polisi yswiriant - cynigwyd i'w dderbyn gan Hedd ac eiliwyd gan Catrin.</li> <li>e. Coeden yn eglwys Mallwyd - disgwyl clywed gan Tegid o ran yswiriant atebolrwydd cyhoeddus</li> <li>f. Rhaglen waith – grid gwartheg ar y ffordd i Fwlch y Groes wedi ei gwblhau</li> <li>g. Hedfan Isel – trafodwyd adroddiad yr AS am hedfan isel a gwnaed sylw bod pethau wedi gwella ychydig a llai o hedfan isel nag a fu a bod awyrennau yn teithio llwybrau gwahanol yn hytrach na dod fyny Cwm Cerist dros Dinas ond eu bod yn mynd fyny Cwm cywarch a Llanymawddwy hefyd, ond yn dal yn creu trafferth</li> </ol>	<p><b>Huw i holi Tegid ymhellach</b></p>
10.	<p><b>Unrhyw fater arall</b></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>a. Torri glaswellt mynwentydd - cadarnhawyd bod gan Hefin Davies fodd o gael yswiriant atebolrwydd cyhoeddus a chytunwyd i ddiogolledu Hefin am hyn.</li> <li>b. Angen cysylltu hefo Tegid am yr un peth ar gyfer mynwent Mallwyd a Llanymawddwy. Angen cael gwybod beth fydd cost hyn cyn penderfynu talu.</li> </ol>	<p><b>Huw i gysylltu hefo Hefin ac i dderbyn y polisi yn dangos yr yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ar gyfer y ffeil, talu'r ffi ac i roi sêl bendith iddo</b></p>

	<p>c. Catrin – Codi ysbwriel – cydnabod bod cynghorwyr wedi bod yn casglu sbwriel yn ddiweddar ac angen diolch.</p> <p>d. John P Jones - Daeardor Groeslwyd - mynegwyd pryder bod y daeardor yn creu problem tagfeydd trafndiaeth ac angen cael ymateb Asiantaeth cefnffyrdd pam bod oedi yn ei ddatrys.</p> <p>e. Idris – Hedging kerbs yn Lawnt y Plas – sawl un wedi cwmpo</p> <p>f. Arfon – gweler canclwm siapan, ty hers, meinciau, system deledu uchod</p> <p>g. Hedd – gweler Ffordd Deunant uchod</p> <p>h. Iwan – Hoffai ddiolch i'r cynghorwyr a oedd wedi ymddiswyddo am eu gwaith dros yr holl flynyddoedd</p>	<p><b>barhau i dorri'r fynwent yn y Dinas.</b></p> <p><b>Huw i gysylltu hefo Tegid ynghylch atebolrwydd cyhoeddus – glaswellt a thorri coed ac i gael copi o'r yswiriant cyn penderfynu parhau – angen gwneud hyn yn fuan oherwydd tyfiant gwair yn y mynwentydd</b></p> <p><b>Huw i gysylltu â'r Asiantaeth i holi beth sy'n digwydd a phryd caiff y problem ei datrys ynghylch daeardor Groeslwyd.</b></p> <p><b>Huw i gysylltu gydag adran priffyrdd ynghylch ffordd Deunant</b></p>
11.	Cyfarfod nesaf 26.6.2019 (i'w gadarnhau - 7:30 Neuadd Dinas Mawddwy	